

Gweithdrefn Trosglwyddo Astudiaethau

Gweithdrefn 10: 2026 Fersiwn 1.0
Daw i rym: 1 Medi 2026



Dyddiad	Yn disodli	Disgrifiad o'r Newid
27 Awst 2026	Amherthnasol	Gweithdrefn newydd:

Perchennog y Ddogfen	Cymeradwywyd gan	Dyddiad Cymeradwyo	Amllder Adolygu
Dirprwy Gofrestrydd Academaidd: Gweinyddiaeth a Chefnogi Busnes	Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd.	27 Awst 2026	Bob tair blynedd.

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Rheoliadau hyn gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Pennaeth y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

Gweithdrefn Trosglwyddo Astudiaethau



Rhagarweiniad

1. Mae'r Weithdrefn hon yn berthnasol i fyfyrwyr ar raglenni israddedig ac ôl-radd hyfforddedig.
2. Mae'r Weithdrefn yn berthnasol i'r canlynol:
 - Trosglwyddiadau mewnol rhwng rhaglenni, llwybrau, dyfarniadau, neu ddulliau astudio o fewn y Brifysgol.
 - Ceisiadau i gael mynediad i'r Brifysgol gydag achrediad parod yn seiliedig ar astudiaeth a gwblhawyd mewn darparwr addysg uwch cydnabyddedig arall.
 - Myfyrwyr sy'n dymuno gadael y Brifysgol a pharhau â'u hastudiaethau mewn darparwr addysg uwch arall.
3. Nid yw'r Weithdrefn hon yn berthnasol i'r canlynol:
 - Ceisiadau i ohirio astudiaethau, y mae'n rhaid eu hystyried o dan y Gweithdrefnau ar gyfer Cymeradwyo Gohirio Astudiaethau.
 - Myfyrwyr y mae eu hastudiaethau'n cael eu terfynu o dan y Weithdrefn Terfynu Astudiaethau.
 - Achosion disgyblu. Rhaid ystyried achosion o'r fath o dan y Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr.
 - Achosion o gamymddwyn academiaidd. Rhaid ystyried achosion o'r fath o dan y Weithdrefn Uniondeb Academiaidd.
 - Achosion Addasrwydd/Ffitrwydd i Ymarfer, y mae'n rhaid eu hystyried o dan weithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer cymeradwy'r Brifysgol.
 - Achosion Cefnogaeth i Astudio, y mae'n rhaid eu hystyried o dan Weithdrefn Cefnogaeth i Astudio'r Brifysgol.
 - Myfyrwyr y mae eu trefniadau trosglwyddo'n cael eu llywodraethu gan weithdrefnau a gymeradwywyd fel rhan o broses gymeradwyo neu ddilysu rhaglen, gan gynnwys amodau a osodir gan gyrff proffesiynol neu noddwyr.

Egwyddorion Cyffredinol

4. Dylai myfyrwyr drafod unrhyw drosglwyddiad arfaethedig gyda'u tiwtor personol, uwch diwtor, cyfarwyddwr cwrs, goruchwyliwr, neu Bennaeth yr Ysgol (neu enwebai) cyn cyflwyno cais ffurfiol.
5. Nid yw cymeradwyo trosglwyddiad yn broses awtomatig a bydd yn dibynnu ar addasrwydd academiaidd, capasiti o fewn y rhaglen sy'n derbyn, gofynion proffesiynol ac unrhyw ffactorau eraill sy'n berthnasol i allu'r myfyriwr i gwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus.
6. Rhaid i fyfyrwyr ystyried goblygiadau academiaidd, ariannol, llety, nawdd, cofrestriad proffesiynol a mewnfudo cyn cyflwyno cais i drosglwyddo.

7. Nid yw cymeradwyo trosglwyddiad yn dileu atebolrwydd am ffioedd dysgu sydd eisoes yn bodoli.
8. Rhaid i fyfyrwyr sy'n astudio o dan fisa Llwybr Myfyrwyr neu ganiatâd mewnfudo arall sicrhau bod unrhyw drosglwyddiad arfaethedig yn cael ei ganiatáu o dan amodau eu caniatâd mewnfudo. Nid yw cymeradwyo trosglwyddiad yn gwarantu y bydd myfyriwr yn parhau i fod yn gymwys i gael nawdd neu ganiatâd mewnfudo, ac mae myfyrwyr yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion mewnfudo.
9. Fel rheol, bydd trosglwyddiadau cymeradwy yn dod i rym o ddechrau sesiwn academiaidd neu ddyddiad arall a gymeradwywyd gan y Gofrestrfa. Ni chaniateir trosglwyddiadau ôl-weithredol fel rheol.

Trosglwyddiadau Mewnol

10. Rhaid cyflwyno ceisiadau am drosglwyddiad mewnol drwy Ganolfan Geisiadau FyMangor.
11. Fel rheol, dylid cyflwyno ceisiadau cyn dechrau sesiwn academiaidd neu o fewn yr amserlenni a bennir gan yr Ysgol sy'n eu derbyn.
12. Nodir y gofynion sy'n ymwneud â newidiadau yn y dull astudio yn Rheoliad 01: Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig.
13. Bydd yr Ysgol sy'n derbyn yn ystyried y canlynol:
 - A yw'r myfyriwr yn bodloni gofynion mynediad y rhaglen.
 - Perfformiad academiaidd blaenorol.
 - Argaeledd lleoedd ac adnoddau.
 - Gofynion cyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol
 - Gallu'r myfyriwr i gwblhau'r rhaglen o fewn y cyfnod cofrestru hiraf a ganiateir gan reoliadau'r Brifysgol.
14. Pe bai trosglwyddiad yn arwain at fyfyrwr yn mynd y tu hwnt i'r cyfnod cofrestru hiraf a ganiateir o dan reoliadau'r Brifysgol, bydd Pennaeth yr Ysgol yn ystyried y cais fesul achos.
15. Bydd y Gofrestrfa'n ymgynghori ag Ysgolion a Gwasanaethau Proffesiynol perthnasol cyn pennu cais pan fo hyn yn angenrheidiol i asesu'r cais. Pan fo pryder perthnasol ynghylch diogelu, ymddygiad, Atal, Addasrwydd i Ymarfer, cydymffurfio â gofynion mewnfudo neu ddisgyblu, rhaid ymgynghori cyn dod i benderfyniad.
16. Gall y Brifysgol ddefnyddio nodiadau "Ystyriaeth Bellach" cyfyngedig ar gofnodion myfyrwyr i nodi y gallai fod angen ymgynghori neu ystyriaeth ychwanegol pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud o dan reoliadau, gweithdrefnau neu bolisiâu'r Brifysgol. Nid yw bodolaeth nodyn o'r fath yn pennu canlyniad unrhyw gais neu benderfyniad ac nid yw, ynddo'i hun, yn dangos bod myfyriwr wedi torri rheoliadau neu ofynion y Brifysgol.
17. Pan fo nodyn "Ystyriaeth Bellach" cyfyngedig yn bodoli ar gofnod myfyriwr, rhaid i'r Gofrestrfa sicrhau bod unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r cais trosglwyddo'n cael eu hystyried yn briodol cyn dod i benderfyniad.
18. Os oes gan fyfyrwr fisa Llwybr Myfyrwyr, rhaid i'r Gofrestrfa geisio cyngor gan Swyddfa Ryngwladol y Brifysgol, y Tîm Cydymffurfio Mewnfudo, neu swyddogion priodol eraill cyn penderfynu ar gais.

19. Bydd cymeradwyo trosglwyddiad mewnol yn amodol ar gadarnhad bod y trosglwyddiad arfaethedig yn cydymffurfio â gofynion Adran Fisâu a Mewnfudo'r Deyrnas Unedig a bod y Brifysgol yn gallu parhau i noddi lle bo'n berthnasol.

Cefnogaeth i Fyfyrrwyr, Diogelu ac Ystyriaethau Risg

20. Ni fydd bodolaeth proses weithredol gan y Brifysgol ynddo'i hun yn sail dros wrthod cais am drosglwyddo. Rhaid i benderfyniadau fod yn seiliedig ar ystyriaethau academiaidd, proffesiynol, rheoleiddiol, gweithredol a rheoli risg perthnasol.
21. Pan fo myfyriwr yn destun cynllun diogelu gweithredol, cynllun rheoli risg, proses disgyblu, proses cefnogaeth sy'n gysylltiedig ag atal, proses addasrwydd i ymarfer, proses cydymffurfio â mewnfudo, neu unrhyw weithdrefn ffurfiol arall gan y Brifysgol, gellir cynnal ymgynghoriad ychwanegol cyn dod i benderfyniad.
22. Pan fo nodyn "Ystyriaeth Bellach" cyfyngedig wedi'i gofnodi ar gofnod y myfyriwr, rhaid i'r Gofrestrfa sicrhau bod y materion a nodwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau trosglwyddo.
23. Rhaid i'r Ysgol sy'n derbyn fod yn fodlon y gellir parhau i reoli unrhyw drefniadau cefnogaeth, mesurau diogelu, cynlluniau rheoli risg, neu ofynion proffesiynol mewn ffordd briodol ar ôl trosglwyddo.
24. Diben ymgynghoriad o'r fath yw sicrhau'r canlynol:
- Gall trefniadau cefnogaeth priodol barhau ar waith ar ôl trosglwyddo.
 - Gellir rheoli risgiau i'r myfyriwr, staff, neu fyfyrwyr eraill mewn modd priodol.
 - Mae unrhyw amodau, cyfyngiadau neu fesurau cefnogaeth yn parhau i fod yn effeithiol.
 - Mae gofynion cyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol yn parhau i gael eu bodloni.
25. Ni fydd bodolaeth pryder ynghylch diogelu, ymddygiad, llesiant neu reoli risg yn atal cymeradwyo trosglwyddiad yn awtomatig.
26. Pan fydd ymgynghoriad yn digwydd o dan y Weithdrefn hon, rhaid cadw cofnod o'r canlynol:
- Y rheswm pam oedd angen ymgynghori.
 - Yr unigolion neu'r gwasanaethau yr ymgynghorwyd â nhw.
 - Unrhyw asesiad risg, cynllun cefnogi neu ddogfennaeth arall a ystyrir.
 - Canlyniad yr ymgynghoriad.
 - Unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddiad.
27. Bydd crynodeb o'r ymgynghoriad a'r penderfyniad yn cael ei gofnodi ar gofnod y myfyriwr yn unol â gofynion rheoli cofnodion a diogelu data'r Brifysgol.
28. Pan fo'n berthnasol, gall y Gofrestrfa geisio cyngor gan y canlynol:
- Gwasanaeth Cefnogi Myfyrwyr, Gwasanaeth Llesiant a Chynwysoldeb.
 - Yr Arweinydd Diogelu neu'r enwebai.
 - Yr Arweinydd Atal neu'r enwebai.
 - Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr
 - Diogelwch.
 - Y Tîm Cydymffurfiaeth Mewnfudo.
 - Cefnogaeth i Gadeirydd y Panel Astudio neu ei enwebai.
 - Darparwr lleoliadau neu gydlynnydd lleoliadau.
 - Swyddogion perthnasol eraill y Brifysgol.
29. Gall gwybodaeth benodol ynghylch pwy i geisio cyngor ganddo gael ei chofnodi mewn nodyn wedi'i binio ar frig cofnod FyMangor y myfyriwr. Fel rheol, defnyddir blychau

post a rennir i geisio arweiniad cychwynnol er mwyn sicrhau ymateb amserol. Dim ond lle bo angen ac yn unol â gofynion diogelu data'r Brifysgol y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu.

30. Dim ond staff uwch awdurdodedig sy'n gweithredu o fewn eu cyfrifoldebau proffesiynol ac yn unol â gweithdrefnau, polisïau a rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol y Brifysgol all ychwanegu nodiadau "Ystyriaeth Bellach" cyfyngedig, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddiogelu, cefnogaeth i fyfyrwyr, gwaith achos a gofynion diogelu data.
31. Gall ceisiadau dderbyn y canlyniadau canlynol:
 - Wedi'i gymeradwyo.
 - Wedi'i gymeradwyo yn ddarostyngedig i amodau.
 - Wedi'i ohirio yn dibynnu ar ganlyniad gweithdrefn arall gan y Brifysgol.
 - Wedi'i wrthod.
32. Pan roddir cymeradwyaeth yn ddarostyngedig i amodau, rhaid cyfleu'r amodau hynny i'r myfyriwr a'r Ysgol sy'n derbyn cyn i'r trosglwyddiad ddod i rym.
33. Gall cymeradwyo trosglwyddiad myfyriwr sydd â fisa Llwybr Myfyrwyr fod yn amodol ar ofynion ychwanegol, gan gynnwys y canlynol:
 - Cadarnhad bod y rhaglen newydd yn bodloni gofynion UKVI.
 - Cyhoeddi Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS) newydd, lle bo angen.
 - Newidiadau i drefniadau nawdd.
 - Cydymffurfio â gofynion monitro presenoldeb ac ymgysylltiad.

Derbyniad gydag Achrediad Parod gan Ddarparwr Addysg Uwch Arall

34. Rhaid cyflwyno ceisiadau gan fyfyrwyr sy'n ceisio mynediad ag achrediad parod drwy weithdrefnau derbyn y Brifysgol, a amlinellir yng Nghod 09: Polisi a Chod Ymarfer ar Recriwtio a Derbyniadau Myfyrwyr (Polisi Derbyniadau).
35. Efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr ddarparu trawsgrifiadau, gwybodaeth am fodiwlau ac unrhyw wybodaeth arall sydd ei hangen i asesu dysgu blaenorol.
36. Bydd cydnabod dysgu blaenorol a dyfarnu credyd yn cael eu hystyried yn unol â rheoliadau academiaidd y Brifysgol a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

Trosglwyddo i Ddarparwr Addysg Uwch Arall

37. Dylai myfyrwyr sy'n bwriadu trosglwyddo i ddarparwr addysg uwch arall hysbysu'r Gofrestrfa a'u Hysgol cyn gynted â phosibl.
38. Bydd y Brifysgol yn darparu trawsgrifiadau, cadarnhad o'r credyd a gyflawnwyd a dogfennaeth arall yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol ac unrhyw ofynion cyfreithiol neu reoleiddiol perthnasol.
39. Fel rheol, bydd gofyn i fyfyrwyr sy'n trosglwyddo i ddarparwr arall dynnu'n ôl o'r Brifysgol yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol.
40. Dylai myfyrwyr sydd â fisa Llwybr Myfyrwyr sy'n trosglwyddo i ddarparwr addysg uwch arall nodi y gallai fod yn ofynnol i'r Brifysgol roi gwybod am newidiadau yn eu statws cofrestru i Adran Fisâu a Mewnffudw'r Deyrnas Unedig. Fel rheol, bydd nawdd gan y Brifysgol yn dod i ben pan fydd myfyriwr yn dynnu'n ôl o'i raglen.
41. Pan fydd myfyriwr yn trosglwyddo i ddarparwr arall tra ei fod yn destun proses barhaus o ran diogelu, ymddygiad, Atal, Addasrwydd i Ymarfer neu broses ffurfiol arall y

Brifysgol, bydd y Brifysgol yn ystyried a oes unrhyw rwymedigaethau rhannu gwybodaeth yn codi neu a oes angen datgelu gwybodaeth i gyflawni cyfrifoldebau diogelu, proffesiynol, statudol, rheoleiddiol, cyfreithiol neu les y cyhoedd. Gwneir unrhyw ddatgeliad o'r fath yn unol â deddfwriaeth diogelu data a pholisïau perthnasol y Brifysgol.

Hysbysiad o Benderfyniadau

42. Bydd y Gofrestrfa'n sicrhau bod myfyrwyr ac Ysgolion perthnasol yn cael gwybod am ganlyniad ceisiadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.
43. Bydd y wybodaeth fydd yn cael ei chyfleu i fyfyrwyr yn cynnwys y canlynol:
 - Canlyniad y cais.
 - Unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth gymeradwyaeth.
 - Dyddiad y daw'r trosglwyddiad i rym.
 - Unrhyw oblygiadau o ran ffioedd, cyllid, nawdd neu statws mewnfudo.
 - Unrhyw oblygiadau mewnfudo, nawdd neu fisa sy'n deillio o'r trosglwyddiad.

Adolygiad o'r Weithdrefn

44. Gall myfyriwr ofyn am adolygiad o'r penderfyniad neu unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y penderfyniad a wnaed o dan y Weithdrefn hon, ar un neu fwy o'r seiliau canlynol:
 - Anghysondeb gweithdrefnol: ni ddilynwyd y broses a ddisgrifiwyd ac a gymhwyswyd i gyrraedd y penderfyniad gwreiddiol yn briodol.
 - Afresymoldeb: roedd y penderfyniad neu unrhyw amodau a oedd ynghlwm wrth y penderfyniad yn afresymol neu heb eu cefnogi gan ffeithiau'r achos.
 - Gwybodaeth neu dystiolaeth newydd: mae gwybodaeth neu dystiolaeth berthnasol newydd wedi codi a allai wneud gwahaniaeth i'r canlyniad, na ellid bod wedi'i darparu'n rhesymol ar yr adeg y cafodd yr achos gwreiddiol ei ystyried.
45. Nid yw anfodlonrwydd â'r canlyniad yn unig, heb sail wedi'i nodi, yn ddigon i adolygiad fynd rhagddo.
46. Rhaid i fyfyrwyr gyflwyno cais i adolygu penderfyniad a wnaed o dan y Weithdrefn hon i'r Tîm Gwaith Achos Myfyrwyr o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y penderfyniad.
47. Bydd y cais yn cael ei ystyried o dan Weithdrefn Adolygu Penderfyniadau'r Brifysgol.